

**BBC Wales**

3 Central Square  
Cardiff CF10 1FS

(+44) 370 350 0700  
bbc.co.uk/wales

**BBC Cymru**

3 Sgwâr Canolog  
Caerdydd CF10 1FS

(+44) 370 350 0700  
bbc.co.uk/cymru

30 Awst, 2023

At sylw Dirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth  
Cc Cefin Campbell AS, Delyth Jewell AS

Annwyl Ddirprwy Weinidog,

Yn dilyn cyhoeddi Adroddiad y Panel Arbenigol ar Awdurdod Darlledu a Chyfathrebu Cysgodol i Gymru, rwyf yn ysgrifennu atoch i ofyn yn garedig am eglurhad a gwybodaeth bellach am rai o'r pwyntiau a godir yn yr adroddiad, yn enwedig y rheini sy'n ymwneud â'r ymchwil a gynhaliwyd gan y Panel, fel rhan o'u harchwiliad o ddarlledu yng Nghymru. Bydd hyn o fudd er mwyn helpu ein dealltwriaeth o'r casgliadau. Yr wyf hefyd wedi cynnwys cyd-destun pellach a gwybodaeth ychwanegol ynglŷn â rhywfaint o'r naratif yn yr adroddiad. Gobeithio y bydd y wybodaeth ychwanegol hon yn ddefnyddiol i'r gwaith sy'n mynd rhagddo yn y maes hwn. Os bydd angen rhagor o wybodaeth arnoch chi, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yn benodol, byddwn yn ddiolchgar pe gallech ddarparu gwybodaeth am fethodoleg a maint sampl yr adroddiad ymchwil 'Tueddiadau Darlledu', a gomisiynwyd gan y Panel. Hoffwn yn fawr iawn gael gwell dealltwriaeth o rai o'r ffigurau a nodir yn yr adroddiad gan nad ydynt yn gyfarwydd.

Yn yr un modd, byddai'n ddefnyddiol deall beth mae'r ymadrodd 'rhaglenni rhwydwaith o Gymru' yn ei olygu i helpu i ddeall pa gynnwys y cyfeirir ato.

Hoffwn hefyd ddeall cynnwys y datganiad canlynol: *"Mae diffyg data sylweddol mewn perthynas â'r cyfryngau darlledu a chyfathrebu sy'n cael ei brofi gan bobl Cymru, ac nid oes gan yr un sefydliad gyfrifoldeb i fynd i'r afael â hyn ar hyn o bryd"*. Rwy'n credu'n gryf bod y BBC yn darparu data a gwybodaeth eang ynglŷn â chynulleidfaoedd ac arferion defnyddio, yn ogystal â gwybodaeth am gyllid ac oriau darlledu yng Nghymru yn ei Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon. Gosodir y dogfennau hyn gerbron y Senedd a chreffir arnynt fel rhan o waith y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol. Mae hyn yn ychwanegol i'r data a'r wybodaeth a'i cesglir a'i cyhoeddir gan OFCOM. Felly, byddai'n ddefnyddiol deall beth mae'r panel yn ei feddwl sydd ar goll a beth yw'r bylchau.

Mae'r adroddiad hefyd yn nodi bod y panel yn *"bryderus nad oedd yn ymddangos bod llawer o feddwl tua'r dyfodol nac arloesi yn digwydd i ystyried sut gallai darlledu a chyfathrebu edrych yng Nghymru yn y dyfodol. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw sefydliad yn gyfrifol am ddatblygu gweledigaeth strategol, sy'n benodol i Gymru yn y maes hwn"*. Byddwn yn anghytuno'n gryf ag unrhyw awgrym nad oes llawer o feddwl nac arloesi yn digwydd o ran tueddiadau a llwyfannau ar gyfer y dyfodol. Mae timau ar draws BBC Cymru a'r sefydliad ehangach yn cynnal trafodaethau dyddiol am ddatblygiadau'r dyfodol gyda'r gwahanol dimau cynnyrch ar draws y BBC, gan geisio diogelu ar gyfer y dyfodol, arloesi a sicrhau bod

cynulleidfaoedd yng Nghymru yn gallu gwyllo cynnwys o'u dewis ar y llwyfan o'u dewis, nawr ac yn y degawd nesaf.

Rwyf hefyd yn synnu ac ychydig yn siomedig gyda sylwadau'r panel am gynhyrchu dramâu a rôl cyd-gomisiynu. Yn benodol, hoffwn gael gwell dealltwriaeth o'r hyn y mae'r panel yn ei olygu wrth ddweud eu bod yn "*pryderu bod drama sy'n benodol ar gyfer cynulleidfaoedd yng Nghymru yn yr iaith Saesneg yn dod yn rhywbeth sy'n perthyn i'r gorffennol. Efallai nad yw chwaeth y rhwydwaith o ran y pwnc a stori bob amser yn adlewyrchu Cymru mewn ffordd sy'n taro tant yn ddigon dwfn â chynulleidfaoedd yma.*"

Mae'r syniad bod cyfres ddrama sy'n cael ei dangos – neu ei chomisiynu – ar gyfer Cymru yn unig mewn rhyw ffordd yn cynnig profiad gwyllo mwy dilys i gynulleidfaoedd yma yn safbwynt goddrychol, ac rwy'n nodi nad yw'r panel yn darparu unrhyw dystiolaeth i gefnogi'r ddadl hon.

Y gwir yw nad yw'r BBC erioed yn ei hanes wedi darparu ystod ehangach o ddrama sy'n adlewyrchu bywyd Cymreig nag y mae'n ei ddarparu heddiw – sioeau fel *Hidden, In My Skin, The Pact, Keeping Faith* a *The Steeltown Murders* – ac mae hyn wedi bod yn ffrwyth cyd-gomisiynu rhwng comisiynwyr talentog yn BBC Cymru a theledu rhwydwaith sydd wedi denu mwy o fuddsoddiad ac wedi cyflawni mwy o uchelgais ar y sgrin. Nid yw'r syniad bod y rhain yn dangos diffyg dealltwriaeth o deimladau Cymreig yn cyd-fynd â'r effaith ar y gynulleidfa a'r gwerthfawrogiad a geir yng Nghymru.

Mae'r bartneriaeth bresennol o fudd i gynulleidfaoedd ym mhob man. Wrth edrych ar *Steeltown Murders*, er enghraifft - cyfres ddrama bywyd go iawn am achos tywyll a hanesyddol ym Mhort Talbot a'r ardaloedd cyfagos - roedd bron i 625k o wylwyr yng Nghymru i'r gyfres ar ryw adeg, sy'n cyfateb i 20% o'r boblogaeth. Y bennod gyntaf oedd y drydedd rhaglen a gafodd ei gwyllo fwyaf yr wythnos honno ar draws y DU (ffynhonnell: BARB). Ar ôl i chi gyfuno'r ffigurau gwyllo teledu ag iPlayer, y ffigur cyfunol 28 diwrnod o gynulleidfa gyfartalog ar draws y gyfres gyfan oedd 5.7M o wylwyr, gyda bron i hanner y gynulleidfa (48%) yn gwyllo ar BBC iPlayer.

Yn fwy diweddar, fe wnaeth *Wolf*, cyd-gomisiwn arall rhwng BBC Cymru a BBC One Network ddenu cyfanswm o 10.5m o geisiadau gwyllo BBC iPlayer yn ystod y pythefnos cyntaf, sef cyfanswm o 6.2M o oriau gwyllo – gan olygu mai dyma'r teitl a wylwyd fwyaf ar draws BBC iPlayer gyfan yn ystod y cyfnod hwnnw. Roedd hon yn gyfres a oedd yn cynnwys cast cryf o Gymry, wedi'i lleoli'n glir yng Nghymru ac yn cynnwys defnydd o'r Gymraeg. Bydd dramâu eraill fel *The Way a Lost Boys and Fairies* hefyd yn portreadu cymunedau Cymraeg yn gryf ac yn cynnwys y Gymraeg yn y sgript.

Mae portreadu ar y lefel hon yn rhan hanfodol o'n cytundeb rhwng BBC Cymru a Cymru Greadigol, felly byddwn wir yn gwerthfawrogi cyfle i ddeall pam y daeth y panel i'r casgliad hwn.

Mae nifer o sylwadau yn yr adroddiad a fyddai, yn ein barn ni, wedi elwa o fwy o gyd-destun a dadansoddiad.

Er enghraifft, mae'r adroddiad yn nodi bod "*nifer yr oriau optio allan lleol ar gyfer newyddion a materion cyfoes dyddiol ac wythnosol ar y teledu yn yr iaith Saesneg yng Nghymru wedi gostwng i 367 awr (o 429 yn 2021) sy'n achos pryder ychwanegol. Dim ond yn*

*achlysurol y mae rhaglenni materion cyfoes ymchwiliol ffurf hir yn cael eu darlledu bellach ar y rhaglen BBC Wales Investigates. Mae Wales Live, a sefydlwyd ychydig flynyddoedd yn ôl, yn fformat cylchgrawn wythnosol sy'n parhau ar BBC One Wales, ond nid yw'n cyflawni'r cylch gwaith ymchwilio ffurf hir hwn."*

Yn wir, gellir priodoli'r gostyngiad mewn oriau optio allan lleol ar gyfer Cymru o ran newyddion a materion cyfoes yn y Saesneg ar deledu'r BBC yng Nghymru yn 2022 i'r gostyngiad yn nifer y cynadleddau i'r wasg gan y llywodraeth a ddangoswyd ar y teledu ers i'r pandemig ddod i ben. Mae'r oriau darlledu wedi dychwelyd i'r rheini sy'n debyg i'r cyfartaleddau cyn y pandemig (ffynhonnell: Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y BBC). Ag eithrio'r cynadleddau i'r wasg yn ystod cyfnod y pandemig, nid oes unrhyw newidiadau comisiynau sylfaenol eraill i raglenni newyddion a materion cyfoes BBC Cymru yn ystod y cyfnod hwn.

Byddwn hefyd yn herio'r dadansoddiad o faterion cyfoes. Lansiodd BBC Cymru Wales frand *BBC Wales Investigates* yn 2017, gyda'r nod o gynhyrchu cynnwys materion cyfoes caled ar gyfer pob llwyfan – teledu, radio ac ar-lein. Nid oedd bwriad o gael 'slot' rheolaidd yn yr amserlen: yn lle hynny, mae'r ymchwiliadau'n cael eu darlledu pan fydd tystiolaeth newydd yn dod i'r amlwg neu pan fydd yr ymchwiliad yn dod i gasgliad ni waeth faint o amser mae hyn yn ei gymryd.

Roedd hwn yn benderfyniad strategol a wnaed i ryddhau'r tîm newyddiaduraeth ymchwiliol o gyfyngiadau 'slot' rheolaidd a chanolbwyntio ar gael mwy o effaith a chyrraedd cynulleidfaoedd newydd. Cafodd y penderfyniad hwn ei wneud i ddiogelu ein buddsoddiad yn y maes allbwn hanfodol hwn yn ogystal ag addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn gwasanaethu pob cynulleidfa ar draws pob dyfais a gwasanaeth. Rydym o'r farn bod y newid wedi bod yn llwyddiant, o ystyried effaith a chyrraedd ymchwiliadau dewr diweddar i betio mewn pêl-droed, achos Lin a Megan Russell, Llofruddiaethau Clydach a'r adroddiad diweddar ar gwynion gan gyn-chwaraewyr a staff Undeb Rygbi Cymru.

Mae'r adroddiad hefyd yn nodi bod "y Panel yn pryderu'n fawr am nifer yr oriau o raglenni 'addysg, ffeithiol a chrefydd' ar BBC Cymru (i lawr i 165 awr yn 2022, o 212 awr yn 2021)". Mewn gwirionedd, mae nifer yr oriau gwreiddiol yn y *genres* hyn yn uwch na'r lefelau cyn y pandemig gan fod y niferoedd a nodwyd gan y panel yn cynnwys ailddarllediadau a gynyddodd yn sylweddol yn ystod cyfnod y pandemig.

Gobeithio bod y wybodaeth hon wedi bod yn ddefnyddiol i chi a byddwn yn ddiolchgar pe gallech hefyd ein helpu ni drwy ddarparu'r wybodaeth y gofynnir amdani uchod er mwyn i ni allu deall y casgliadau y daethpwyd iddynt yn llawn.

Yn gywir,



**Rhuanedd Richards**  
Cyfarwyddwr, BBC Cymru